# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG DYDD MAWRTH, 15 MAI 2018

**Yn bresennol:** **Cynghorwyr** : Peter Read (Cadeirydd), John Brynmor Hughes ac Elfed Williams

**Swyddogion:** Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), a Lowri H Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Eraill a wahoddwyd:** Y Cynghorydd Edgar Owen, Medwyn Griffiths (Iechyd Cyhoeddus Cymru), Hannah Lloyd (Iechyd Cyhoeddus Cymru) a Hugh Edwin Jones (Rheolwr Digwyddiadau) - arsylwi

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Moira Duell Parry (Swyddog Iechyd Amgylchedd)

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO

**Parafest, Canolfan Awyrofod Eryri, Llain Awyr Llanbedr**

Cyflwynwyd y panel a'r swyddogion i bawb oedd yn bresennol a chyhoeddwyd bod gan bawb hyd at 10 munud i gyflwyno sylwadau uniongyrchol ar y cais.

**Ar ran yr eiddo:** Mr Mark Meadows (ymgeisydd)

**Eraill a wahoddwyd:** Cynghorydd Annwen Hughes (Aelod Lleol)
Cynghorydd Eryl Jones Williams (Aelod ymylol)
Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu Gwynedd a Môn, Heddlu Gogledd Cymru)

a) **Adroddiad ac argymhelliad yr Adran Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo ar gyfer cynnal Gŵyl 'Parafest' fyddai yn cael ei lleoli ar dir Canolfan Awyrofod Eryri ar y Llain Awyr yn Llanbedr. Bwriad yr ymgeisydd oedd cynnal gŵyl flynyddol paragleidio ynghyd a digwyddiad cymdeithasol o weithgareddau yn ymwneud a pharagleidio i beilotiaid a'u teuluoedd. Amlygwyd bod y bwriad yn cynnig gwerthiant alcohol a lluniaeth hwyr y nos fel rhan o'r arlwy ynghyd â cherddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi ei recordio.

Tynnwyd sylw at fanylion y gweithgareddau trwyddedig a’r oriau arfaethedig yn yr adroddiad. Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu dystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a’r rheoliadau perthnasol.

Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymell i hyrwyddo’r amcanion trwyddedu ynghyd a’r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Nodwyd bod 9 e-bost wedi ei dderbyn gyda 4 ohonynt yn gwrthwynebu’r cais ar sail y 4 amcan trwyddedu. Tynnwyd sylw at yr amodau sŵn a gyflwynwyd gan Swyddog Iechyd yr Amgylchedd. Cyfeiriwyd hefyd at gais blaenorol a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd ym mis Ionawr 2018 oedd heb ei gyflwyno yn unol â'r gofynion cyfreithiol. Amlygwyd bod yr ymgeisydd wedi ymateb i bryderon a godwyd yn ystod y broses ymgynghorol ar y cais gwreiddiol a bellach wedi cytuno i gynnal gweithgareddau trwyddedig hyd at 1:00 (nos Wener a nos Sadwrn) yn hytrach na 03:00 fel ag y gofynnwyd amdano. Ategwyd bod yr ymgeisydd hefyd wedi cyflwyno sylwadau i’r Gwasanaeth Tân i geisio diwallu eu pryderon.

b) Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoddwyd cyfle i aelodau’r Is-bwyllgor a’r ymgeisydd ofyn cwestiynau i’r Rheolwr Trwyddedu.
- Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoddwyd cyfle i’r ymgynghorai gyflwyno eu sylwadau
- Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i’r sylwadau
- Rhoddwyd cyfle i aelodau’r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoddwyd cyfle i aelodau’r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i’r ymgynghorai

c) Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd yr ymgeisydd ei fod yn hapus gyda’r hyn oedd wedi ei gyflwyno a gofynnodd am yr hawl i ddosbarthu lluniau a manylion pellach am yr Ŵyl. Gwnaed penderfyniad i dderbyn llun o leoliad gŵyl 2017, ond gwrthodwyd manylion o sylwadau unigolion gan nad oedd hawl wedi ei dderbyn i’w rhannu. Teimlai yn anfodlon nad oedd yn cael y cyfle i herio ymateb gan un o’r gwrthwynebwyr, oedd eisoes wedi cynnwys sylwadau gan unigolion eraill. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Trwyddedu bod y sylwadau hynny wedi derbyn caniatâd i’w rhannu ac wedi eu cyflwyno o fewn y cyfnod ymgynghori.

Ategodd y sylwadau canlynol:

- Yr ŵyl yn ddigwyddiad ar raddfa fechan ac na ddylai gael ei gymharu gyda Gŵyl Rhif 6
- Ni dderbyniwyd cwynion o’r ŵyl Parafest a gynhaliwyd yng Nghaerwys 2017
- Ei fod yn disgwyl llai na 500 o geir dros gyfnod o bedwar diwrnod – roedd wedi cysylltu gyda’r adran Amgylchedd
- Nad oedd ganddo gyllideb, nawdd na chefnogaeth cwmnïau mawr ar gyfer yr Ŵyl - yn ddibynnol ar werthiant tocynnau
- Bod yr oriau trwyddedig wedi ei gyfyngu i 11:00 tu allan a 1:00 tu mewn, hyn mewn ymateb i bryderon gwrthwynebwyr
- Bod mesurau yn eu lle i reoli ehediadau
- Nad oedd bwriad cynnal gŵyl ymwthiol - gŵyl gymunedol, deuluol ar gyfer paragleidio yn unig
- Bod yr ŵyl yn ddibynnol iawn ar y tywydd
- Bod cerddoriaeth yn elfen o adloniant yn unig

- Nad oedd ganddo fwriad i achosi unrhyw aflonyddwch

ch) Yn manteisio ar ei hawl i siarad, nododd yr aelod lleol, y pwyntiau canlynol;

- Croesawu'r digwyddiad er lles economi ardal Llanbedr
- Pryderon am sŵn
- Angen sicrwydd bod rhywbeth yn cael ei wneud i leihau tagfeydd traffig yn yr ardal

d) Yn manteisio ar ei hawl i siarad, nododd yr aelod ymylol, y pwyntiau canlynol;

- Nad oedd yn fodlon bod y llun wedi ei rannu gan nad oedd tystiolaeth dyddiad nac amser ar y llun
- Pryder am faterion traffig, ond deall nad cyfrifoldeb yr ymgeisydd fyddai hyn
- Na fyddai isadeiledd Llanbedr yn gallu ymdopi gyda phroblemau traffig o'r maint yma
- Dim gwrthwynebiad i'r ŵyl yn benodol, dim ond i'r dyddiad y mae'n cael ei drefnu - penwythnos brysuraf y flwyddyn ar ddechrau gwyliau haf i ysgolion.

dd) Yn manteisio ar ei hawl i siarad, cadarnhaodd Swyddog o'r Heddlu gan mai cais o'r newydd ydoedd nad oedd tystiolaeth i wrthwynebu'r cais. Nododd ei fod wedi gwneud ymholiadau gyda Heddlu Caerwys ynglŷn â Gŵyl 2017 oedd yn cadarnhau nad oedd cwynion wedi eu derbyn. Mynegodd bod yr Heddlu yn gefnogol i'r cais ac yn cyfarch bod yr oriau trwyddedu wedi eu cwtogi. Nododd bod ymweliad safle wedi ei gynnal gyda'r rhingyll lleol. Roedd yn derbyn y pryderon sŵn a thrafnidiaeth, ond ategodd bod y Grŵp Digwyddiadau wedi trafod y mater ac er nad yw'r sefyllfa yn ddelfrydol, ni ellid dal yr ymgeisydd yn llwyr gyfrifol.

e) Wrth grynhoi ei gais, amlygodd yr ymgeisydd mai Gŵyl deuluol oedd y fenter ac nad oedd ganddo unrhyw fwriad o greu aflonyddwch i drigolion lleol na chwaith aflonyddu ymwelwyr yr Ŵyl. Ategodd bod yr Ŵyl yn un ar raddfa fechan a'r bwriad oedd symud y gerddoriaeth i mewn i'r awyrendy o 11:00 tan 01:00. Amlygodd bod trafodaethau wedi eu cynnal gyda'r Gwasanaeth Tân a'u bod yn hapus gyda'r trefniadau.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd i'r ymgeisydd ynglyn a'i fwriad i dderbyn amodau Swyddog Iechyd yr Amgylchedd, cytunodd i sicrhau y byddai'r Rheolwyr Sain yn cadw i'r lefel a gytunwyd ac yn monitro'r lefelau sŵn.

f) Wrth ystyried y cais ystyriwyd adroddiad y Swyddog Trwyddedu, y ffurflen gais, y sylwadau ysgrifenedig a ddaeth i law oddi wrth y partïon gyda diddordeb ynghyd â'r sylwadau llafar a gyflwynwyd gan yr holl bartïon yn bresennol yn y gwrandawiad. Bu i'r Is-bwyllgor hefyd ystyried Polisi Trwyddedu'r Cyngor, arweiniad y Swyddfa Gartref ynghyd ag egwyddorion Deddf Trwyddedu 2003

- Trosedd ac Anrhefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

**PENDERFYNWYD caniatáu y cais yn ddarostyngedig i amodau arfaethedig a gytunwyd rhwng Swyddog Iechyd yr Amgylchedd a'r ymgeisydd o ran effeithiau sŵn**

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i sylwadau ynglŷn â'r pryderon canlynol:

Sŵn - mewn ymateb i bryderon y byddai caniatáu'r cais yn arwain at gynnydd mewn problemau sŵn roedd yr Is-bwyllgor yn derbyn y gall unrhyw broblem sŵn mewn egwyddor fod yn gyfystyr a niwsans cyhoeddus. Fodd bynnag ni dderbyniwyd unrhyw dystiolaeth o ran natur, amledd a dwysedd y sŵn fyddai'n cael ei gynhyrchu o ganlyniad i ganiatáu'r drwydded na'r nifer fyddai'n cael ei effeithio gan mai dim ond ar un penwythnos mewn blwyddyn y byddai'r Ŵyl yn digwydd. Ni dderbyniwyd tystiolaeth y byddai cynhyrchiad sŵn yr ŵyl yn cyrraedd lefelau fyddai'n niweidiol i iechyd pobl yn ôl canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd. Tra bod gan yr Is bwyllgor gydymdeimlad gyda'r pryderon sŵn nid oeddynt wedi ei perswadio y byddai rhoi'r drwydded yn debygol o arwain at broblem sŵn mor ddifrifol fel y gellid ei ddisgrifio fel 'niwsans cyhoeddus'.

Amlygwyd bod Iechyd Amgylcheddol y Cyngor wedi cyflwyno cyfres o amodau sŵn arfaethedig. Ym marn yr Is-bwyllgor, roedd yr amodau hyn yn rhesymol ac yn darparu camau diogelu priodol i atal unrhyw sŵn fyddai'n deillio o'r ŵyl rhag bod yn niwsans cyhoeddus. Roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon y byddai ymgorffori'r amodau yn sicrhau bod y drwydded yn gydnaws a'r amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus.

Traffig - mewn ymateb i bryderon y byddai caniatáu'r cais yn arwain at broblemau traffig roedd yr Is-bwyllgor yn derbyn y gall problemau traffig mewn egwyddor fod yn berthnasol i'r amcan trwyddedu o sicrhau diogelwch cyhoeddus. Fodd bynnag ni dderbyniwyd unrhyw dystiolaeth wrthrychol o ran natur y traffig fyddai'r digwyddiad yn ei gynhyrchu, ac a fyddai'r traffig hwnnw yn uchafu capasiti y rhwydwaith leol. Amlygwyd nad oedd sylwadau gan yr adran Briffyrdd na'r Heddlu yn amlygu pryderon am lefelau traffig o ganlyniad i ganiatáu'r drwydded. Nid oedd yr Is-bwyllgor wedi ei perswadio y byddai rhoi'r drwydded yn debygol o arwain at broblem traffig a fyddai'n tanseilio diogelwch cyhoeddus.

Dŵr yfed - mewn ymateb i bryder y byddai caniatáu'r cais yn cael effaith andwyol ar bwysau dŵr yn y dalgylch roedd yr Is bwyllgor yn derbyn y gall cwymp sylweddol mewn pwysau dŵr olygu diffyg cyflenwad, ac o ganlyniad achosi problem diogelwch cyhoeddus. Er hynny, nid oedd tystiolaeth wrthrychol wedi dod i law yn amlygu y byddai cynnal yr ŵyl hon yn achosi problem o'r fath. Ategwyd nad oedd unrhyw sylwadau wedi eu cyflwyno gan Iechyd Amgylcheddol y Cyngor, na Dwr Cymru yn amlygu'r pryder. O dan yr amgylchiadau nid oedd yr Is-bwyllgor wedi ei berswadio y byddai rhoi'r drwydded yn achosi problem cyflenwad dŵr fyddai'n tanseilio diogelwch cyhoeddus.

Wrth ddod at y penderfyniad ni wnaeth yr Is-bwyllgor ystyried y dogfennau pellach a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd yn y gwrandawiad oherwydd eu bod yn fodlon nad oedd caniatáu y cais yn debygol o arwain at broblemau fyddai'n tanseilio'r amcanion trwyddedu.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd yn bresennol. Hysbysebwyd o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod o dderbyn y llythyr hwnnw

## 5. CAIS AM DRWYDDED EIDDO

**Club DB, 318, Stryd Fawr, Bangor**

Cyflwynwyd y panel a'r swyddogion i bawb oedd yn bresennol.

**Ar ran yr eiddo:** Mr Peter Hennessey - ymgeisydd

**Eraill a wahoddwyd:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu Gwynedd a Môn, Heddlu Gogledd Cymru)

a) **Adroddiad ac argymhelliad yr Adran Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais am drwydded eiddo ar gyfer Club DB, 318 Stryd Fawr, Bangor. Bwriad yr ymgeisydd yw ychwanegu'r gweithgareddau trwyddedig o ddangos ffilmiau, dramâu neu gynnal perfformiadau dawns ar yr eiddo. Gofynnwyd am,

- ymestyn oriau agor yr eiddo i 02:30 ar nos Wener a nos Sadwrn;
- cynnal cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi ei recordio am awr yn ychwanegol, hyd at 02:30 ar nos Wener a nos Sadwrn, a hanner awr yn ychwanegol, hyd at 02:00 weddill yr wythnos;
- ymestyn oriau gwerthu alcohol o dri chwarter awr i 02:15 ar nos Wener a nos Sadwrn.
- hanner awr ychwanegol ar Suliau Gŵyl y Banc, a hyd 05:30 ar nos Calan.

Tynnwyd sylw at fanylion yr oriau arfaethedig yn yr adroddiad. Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol.

Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ynghyd a'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Nodwyd bod 1 llythyr yn gwrthwynebu ac un e bost gan Heddlu Gogledd Cymru yn argymell amodau i'w cynnwys ar y drwydded. Gwnaethpwyd y sylwadau mewn perthynas â 2 o'r amcanion trwyddedu - Atal trosedd ac anrhefn ac Atal niwsans cyhoeddus.

b) Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.
- Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gyflwyno eu sylwadau
- Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai

c) Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd yr ymgeisydd ei fod yn hapus gyda'r hyn oedd wedi ei gyflwyno ac ategwyd y sylwadau canlynol:

- Ei fod wedi bod yn cydweithio gyda'r Heddlu i sicrhau bod y busnes yn rhedeg yn esmwyth
- Ei fod yn barod i gydweithio gyda'r gymuned leol
- Ei fod yn cyflogi pobl leol

- Bod yr eiddo yn gyn-adeilad masnachol
- Bod angen am yr oriau ychwanegol oherwydd yr oriau hyn sydd yn gwneud y busnes yn hyfyw.

Mewn ymateb i'r gwrthwynebiad bod y 'busnes mewn ardal breswyl' amlygodd yr ymgeisydd bod y busnes ar stryd fasnachol gyda phreswylwyr i'r cefn o'r eiddo. Ategodd bod rhaniadau gwrthsain wedi eu gosod at flaen yr adeilad.

ch) Yn manteisio ar y cyfle i siarad, nododd Swyddog o Heddlu Gogledd Cymru bod problemau hanesyddol wedi bod gyda'r eiddo yn y gorffennol ond bod y sefyllfa wedi gwella ers i'r perchennog newydd gymryd drosodd. Amlygodd bod cais i amod goruchwylwyr drysau gael ei roi ar y drwydded er mwyn cysoni trefniadau gydag eiddo cyffelyb - hyn i sicrhau y byddai unrhyw broblemau sydd yn digwydd ar y palmant yn cael eu monitro. Ategodd nad oedd unrhyw broblemau wedi codi gyda digwyddiadau trwydded dros dro hyd yma a bod y cydweithio wedi bod yn dda. Nododd hefyd bod cais wedi ei wneud i amod TCC gael ei chynnwys ar y drwydded. Roedd yn gefnogol i'r cais yn amodol i'r amodau uchod.

d) Wrth grynhoi ei gais, nododd yr ymgeisydd mai ei flaenoriaeth oedd rheoli'r eiddo yn dda a pharhau i gydweithio yn effeithiol

dd) Wrth ystyried y cais ystyriwyd yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd gan roi sylw penodol i Polisi Trwyddedu'r Cyngor, arweiniad y Swyddfa Gartref ac egwyddorion Deddf Trwyddedu 2003;

- Trosedd ac Anrhefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

**PENDERFYNWYD caniatáu y cais yn ddarostyngedig ar gynnwys amodau diogelwch drws ac amodau teledu cylch cyfyng ar y drwydded yn gydnaws a'r amcanion trwyddedu**

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i sylwadau ynglŷn â'r pryderon canlynol:

Atal trosedd ac anhrefn – derbyn sylwadau yr Heddlu bod angen amodau ychwanegol o ran diogelwch drws er mwyn sicrhau bod y drwydded yn gwarchod yr amcan o atal trosedd ac anhrefn.

Sŵn – wrth ystyried pryderon trigolion lleol y byddai caniatáu'r cais yn arwain at gynnydd mewn problemau sŵn oddi wrth yr eiddo, roedd yr Is-bwyllgor yn derbyn y gallai unrhyw broblem sŵn mewn egwyddor fod yn gyfystyr a niwsans cyhoeddus. Fodd bynnag ni dderbyniwyd unrhyw dystiolaeth o ran natur, amledd a dwysedd y sŵn presennol, y sŵn fyddai'n cael ei gynhyrchu o ganlyniad i wyro'r drwydded na'r nifer fyddai'n cael ei effeithio. Ni dderbyniwyd unrhyw dystiolaeth y byddai'r sŵn tebygol yn cyrraedd lefelau fyddai yn niweidiol i iechyd pobl yn ôl canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd.

Amlygwyd hefyd mai un preswylydd lleol oedd wedi cyflwyno gwrthwynebiad ar sail sŵn. Ni dderbyniwyd sylwadau gan adran Iechyd Amgylcheddol y Cyngor bod problemau sŵn presennol na thebygol yn deillio o'r eiddo, ac felly yn awgrymu nad oedd gwir sefyllfa o niwsans cyhoeddus.

O dan yr amgylchiadau, tra bod gan yr Is bwyllgor gydymdeimlad gyda'r pryderon a godwyd o ran materion sŵn, nid oeddynt wedi ei perswadio y byddai caniatáu'r drwydded yn debygol o arwain at broblem sŵn mor ddifrifol fel y gellid ei ddisgrifio fel niwsans cyhoeddus.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd yn bresennol. Hysbysebwyd hefyd o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod o dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 y.h. a daeth i ben am 4.00 y.h.

**CADEIRYDD**